

Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro



COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
Dydd Mawrth 20^{fed} Tachwedd 2018 am 10.00am
Swyddfeydd Porthladd Aberdaugleddau

Presennol:

Tegryn Jones	Prif Weithredwr APCAP (Cadeirydd)
Ian Westley	Prif Weithredwr Cyngor Sir Penfro
Rob Quin	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub CAGC
John Hesbin	Pennaeth Gweithrediadau De-ddwyrain, Cyfoeth Naturiol Cymru
Natalie Pearson	Pennaeth Ymgysylltu Llywodraeth Cymru
Rowland Rees-Evans	Cadeirydd Awdurdod Tân CAGC
Jonathan Feild	Rheolwr Cyflogwyr Phartneriaethau, Adran Gwaith a Phensiynau
Sue Leonard	Prif Swyddog PAVS (Is-gadeirydd)
Anna Bird	Pennaeth Datblygu Partneriaeth Strategol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Diane Lockley	Cadeirydd Pwyllgor Ardal Leol Un Llais Cymru
Dr Steven Jones	Cyfarwyddwr Datblygu Cyngor Sir Penfro
Ros Jervis	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (gadawodd am 11.50am)
Iwan Thomas	Prif Swyddog Gweithredol PLANED
Jessica Morgan	PLANED
Anna Malloy	Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu Porthladd Aberdaugleddau
Elaine Lorton	Cyfarwyddwr Sirol Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Caroline James	Cyfarwyddwr Adnoddau a Gwasanaethau Cymunedol Coleg Sir Benfro
Cris Tomos	Yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a'r Gymraeg

Yn gweini

Claire George	Cydgysylltydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu, CSP
Jo Creasey	Cydgysylltydd Cynllun Ffyniant Rhanbarthol
Richard Palmer	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Data Cymru (rhan o'r cyfarfod)
Martyn Palfreman	Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol, Cyngor Sir Gâr

Cymorth / Ysgrifenyddiaeth

Nick Evans	Rheolwr Cymorth Partneriaeth a Chraffu, CSP
Lynne Richards	Cydgysylltydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu, CSP

Ymddiheuriadau

Andrea Winterton	Rheolwr Gweithrediadau Sir Benfro De-orllewin, Morol ac Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru
Barry Walters	Prifathro Dros Dro, Coleg Sir Benfro
Bernadine Rees	Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sarah Jennings	Cyfarwyddwr Partneriaethau a Gwasanaethau Corfforaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Y Cyng. David Simpson	Arweinydd Cyngor Sir Penfro
Andy Jones	Prif Weithredwr Dros Dro, Porthladd Aberdaugleddau

Dechreuodd y cyfarfod am 10.10am.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Diolchodd y Cadeirydd i Borthladd Aberdaugleddau am letya'r cyfarfod ac i Alec Don am ei gyfraniad at waith y BGC.

Gwnaed cyflwyniadau a chroesawodd y Cadeirydd IT i'w gyfarfod cyntaf. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y rhai a restrwyd uchod.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 25^{ain} Medi 2018 yn gofnod cywir.

3. Cofnod Gweithredu

Roedd goll gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ar agenda'r cyfarfod.

4. Dewis Cymru

Cafodd aelodau'r BGC gyflwyniad gan Richard Palmer, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Data Cymru ac arweinydd Dewis Cymru, ar wefan newydd Dewis Cymru. Disgrifiodd y defnydd presennol ac amrywiaeth y cynnwys, ynghyd â chysylltiadau rhwng y wybodaeth ar y wefan a gwybodaeth sy'n cael ei dal gan sefydliadau partner, gan gynnwys lechyd. Rhoddodd enghreifftiau hefyd o sut oedd y wefan yn cael ei defnyddio i hyrwyddo gwahanol ddulliau o gyflenwi gwasanaethau, fel presgripsiynu cymdeithasol.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau yn dilyn y cyflwyniad fel a ganlyn:

- Gofynnodd RJ a oedd chwiliadau'n cael eu harolygu i nodi bylchau gwybodaeth yn y system.
Atebodd RP bod gweithgaredd chwilio'n cael ei gofnodi a bod cynlluniau i wneud holi chwiliadau'n rhan o'r system. Ychydig iawn o chwiliadau fyddai'n peri methu cael gwybodaeth, gyda chwilwyr yn cael eu cyfeirio at fannau mynediad unigol o fewn eu hardal leol wrth fethu canfod dim.
- Gofynnodd RRE a wnaed gwiriadau diogelu ar gwmnïau a restrwyd ar y wefan. Nododd RP bod Golygyddion yn y lle gorau i fod â gwybodaeth leol ynghylch gwasanaethau yn eu hardal.
- Eglurodd RP bod y ffigur o 19m yn gysylltiedig â holl ganlyniadau chwilio nid niferoedd y chwiliadau a wnaed a bod nifer y gwasanaethau newydd yn cael eu hychwanegu at y system yn cynyddu oddeutu 500 y mis ar hyn o bryd.
- Holodd JM sut oedd Dewis Cymru'n cael ei hyrwyddo i ddefnyddwyr cyffredin ac a oedd busnesau lleol yn cael eu hannog i ddefnyddio'r wefan.
Nododd RP mai cyllideb fechan oedd gan y system, gyda'r mwyafrif ohoni'n cael ei defnyddio i gynnal y wefan a chyllido cyfleuster y ddesg gymorth. Gallai Data Cymru ddarparu deunydd hysbysebu gyda brand lleol na thalwyd amdano ganddynt hwy ac roedd rhywfaint o ddeunydd hysbysebu ar gael hefyd ar ffurf pdf y gellid ei anfon at aelodau'r BGC. Lansiwyd y wefan ym mis Gorffennaf 2018 ac roedd ar hyn o bryd yn cael ei hyrwyddo trwy gyfryngau cymdeithasol. Roedd posibilrwydd ymgyrch hyrwyddo wedi'i thargedu trwy Weplyfr yn cael ei ystyried i roi gwybodaeth am arddwyr, trinwyr gwallt symudol ac ati i ddefnyddwyr.

Dyweddod RP y gwelodd ymchwil fod 40% o oedolion hŷn yng Nghymru'n ddigidol anweithgar ond bod yr un ymchwil, fodd bynnag, wedi dangos mai dim ond un cam fod oedd y rhan fwyaf o'r bobl hyn oddi wrth rywun a allai gael gwybodaeth ddigidol ar eu rhan.

Byddai'r cyflwyniad yn cael ei gylchredeg i aelodau'r BGC ynghyd â'r deunydd hysbysebu pdf ar ôl ei dderbyn.

LR

5. Y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Rhoddodd MP gyflwyniad ar y Bwrdd i bartneriaid y BGC, gan gynnwys cefndir, cyhoeddi'r Cynllun Cenedlaethol – Cymru Iachach yn ddiweddar a swyddogaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth gyflawni'r Cynllun.

Yna rhoddodd MP olwg dros y cynllun trawsnewid ar gyfer y rhanbarth oedd yn adlewyrchu nodau'r Cynllun Cenedlaethol. Roedd y cynllun trawsnewid yn cynnwys pedwar maes blaenoriaethol a byddai rhan o'r £100m o gyllid trawsnewid a glustnodwyd i gyflawni'r Cynllun Cenedlaethol cyfan ledled Cymru ar gael i'r rhanbarth. Roedd cynigion am y cymorth ariannol hwn i gael eu cyflwyno erbyn diwedd mis Tachwedd 2018. Tynnwyd sylw at feysydd lle byddai modd gweithio gyda BGC tuag at gyflawni rhai o flaenoriaethau eu Cynllun Ffyniant ac fe'u trafodwyd fel a ganlyn:

Fframwaith Digidol ar y Cyd

Llwyfan rhanbarthol yn darparu cofnodion gofal ar y cyd ac yn tynnu data poblogaeth a gwasanaethau ynghyd ar gyfer cynllunio. Gellid ei ddefnyddio hefyd i roi gwybodaeth am y boblogaeth a gwasanaethau ar gyfer Aseidiadau Ffyniant y dyfodol.

Newid ymddygiad er gwell

Fframwaith newid ymddygiad i'w brofi mewn ardaloedd allweddol gan gynnwys Trawsffurfio'r Blynnyddoedd Cynnar (Y 1000 Diwrnod Cyntaf) ac ACE. Ymgysylltu â dinasyddion, symud y tu hwnt i ymgynghoriad traddodiadol tuag at ymgysylltu a chydgyhyrchu rheolaidd. Gellid cyflwyno trefniant cynulliad / panel dinasyddion ar gyfer y rhanbarth gyda chymorth offeryn digidol i alluogi ymgysylltu â'r gymuned ehangach.

Bröydd integredig

Cyflwyno rhaglenni hunanreoli gyda chymorth mewn ardaloedd rhagbrofi – patrwm presgripsiwn cymdeithasol a bancio amser wedi ei dargedu ar gyflyrau iechyd cronig hirdymor.

Pobl gysylltiedig, cymunedau caredig

Yn cynnwys rhaglen dinasyddion gweithgar, prosiect digidol rhwng cenedlaethau a hefyd meithrin mentrau trydydd sector, cymdeithasol a mân.

Byddai camau nesaf y broses yn cynnwys trafodaethau rhwng y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ac arweinwyr BGC i dynnu sylw at feysydd ychwanegol lle gellid cydweithredu cyn gweithredu'r cynllun trawsnewid lleol o fis Rhagfyr 2018 ymlaen.

Trafododd aelodau'r BGC faterion ynghylch newid ymddygiad fel rhan o'r broses drawsnewid a sut oedd hyn yn berthnasol i arfer proffesiynol yn ogystal ag i boblogaethau. Nododd IT bod llawer o waith cymunedol eisoes yn Sir Benfro yn cael ei wneud gan bartneriaid y BGC a byddai'n bwysig i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol weithio gyda BGC a'r prosiectau sy'n bodoli eisoes i osgoi ailadrodd.

Er mwyn hwyluso cysylltiadau agosach rhwng y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a BGC cynigiwyd a chytunwyd i wahodd MP i ymuno â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro fel cyfranogwr trwy wahoddiad.

LR

Byddai'r cyflwyniad yn cael ei gylchredeg i'r partneriaid er gwybodaeth.

LR

6. Diweddariadau Prosiectau'r Cynllun Ffyniant

Prosiect 1 - Fframwaith Trawsnewid Denu a Chyflogi

Rhododd CJ/JF y diweddaraf ar drafodaethau'n dilyn y cyfarfod gyda chydweithwyr Adnoddau Dynol a gynhaliwyd yn gynnar ym mis Tachwedd. Datblygwyd taflen wybodaeth ar ôl y cyfarfod a byddai'n cael ei chylchredeg i'r partneriaid. Trefnwyd cyfarfod pellach i ystyried arferion da o gwmpas profiad gwaith ac enghreifftiau mewn bodolaeth eisoes cyn penderfynu pa ffordd i fynd. Gobeithiwyd y gellid datblygu cronfa o gyfleoedd profiad gwaith ac, fel rhan o'r patrwm, cytunwyd y byddai cymorth yn cael ei addasu i ofynion unigol. Byddai'r patrwm hefyd yn canolbwyntio ar sectorau oedd yn anodd denu iddynt a chynnal y farchnad lafur yn Sir Benfro.

LR

Prosiect 2 – Aseiad o Risgiau Amgylcheddol a Newid Hinsawdd

Nodwyd y cylchredwyd adroddiad yn diweddarau partneriaid ynghylch y gwaith i ddatblygu'r aseiad o risgiau newid hinsawdd.

Prosiect 4 – Gwneud pethau'n wahanol

Nododd EL y trefnwyd gweithdy cwmpasu ar 14^{eg} Rhagfyr yn Abergwaun. Byddai diweddariad arall yn dilyn yng nghyfarfod nesaf y BGC ym mis Chwefror.

Prosiect 5 – Dathlu'r Awyr Agored

Nododd RJ y cynhaliwyd cyfarfod dechreuol i drafod agwedd ranbarthol gyda rheolwyr BGC o Sir Benfro, Sir Gâr a Cheredigion. Cafodd yr awgrym dderbyniad cadarnhaol ac roedd cefnogaeth gyffredinol i agwedd ranbarthol. Cytunwyd y byddai papur yn cael ei baratoi i roi diweddariad ar bob un o'r BGC lleol yn y flwyddyn newydd.

RJ

Prosiectau 6, 7 ac 8 – Prosiectau gyda Thema Gymunedol

Dyweddodd SL wrth y partneriaid bod y grŵp prosiectau wedi cyfarfod am y tro cyntaf ar 6^{ed} Tachwedd. Roedd papur yn diweddarau'r BGC ar drafodaethau a syniadau'n ymddangos o'r cyfarfod wedi cael ei gylchredeg. Nodwyd nad oedd pob un o'r partneriaid allweddol ar gael ar gyfer y cyfarfod a bod y camau gweithredu a blaenoriaethau eto i'w diffinio'n llawn o ganlyniad.

Fel rhan o drafodaethau ynghylch diweddariadau'r Cynllun Ffyniant, holai SPJ a fyddai modd cael cynrychiolydd pobl ifanc ar y BGC. Nododd CG y byddai hyn yn rhywbeth y

gellid ei drafod yng nghyfarfod nesaf Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro ac y byddai'n cysylltu â chydweithwyr i godi hyn gyda nhw i benderfynu beth fyddai'r ffordd orau o ddenu pobl ifanc at waith y BGC.

7. Llythyr Gweinidogol ynghylch: Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol

Nododd NE y cylchredwyd llythyr oddi wrth Rebecca Evans, y Gweinidog Tai ac Adfywio, er gwybodaeth.

Tynnodd y llythyr sylw at bwysigrwydd gweithio ar y cyd rhwng BGC a'r Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol a chyfeiriodd at adolygiad sydd ar y gweill yn cynnwys rhanddeiliaid yn genedlaethol a lleol. Byddai rhagor o wybodaeth yn dilyn maes o law.

8. UFA

Nododd JF bod yr Adran Gwaith a Phensiynau'n cael trafferth cysylltu â landlordiaid preifat fel rhan o ledaenu Credyd Cynhwysol yn Sir Benfro a gofynnodd a fyddai'r Awdurdod Lleol yn dal cofrestr. Cynigiodd SPJ gysylltu â chydweithwyr yn yr Adran Dai i holi ynghylch hyn.

SPJ

Awgrymodd IT y dylid herio Dewis Cymru ar rywfaint o'r cynnwys a pherthnasedd gwybodaeth ar y wefan, oherwydd ei fod wedi cyrchu'r wefan yn fyr y bore hwnnw a darganfod amryw faterion. Dywedodd y credai y dylai'r CBY gefnogi a hyrwyddo'r wefan ond y dylid codi'r materion uchod gyda Dewis Cymru.

IT

Atgoffodd NE y partneriaid y byddai Academi Cymru'n cyflwyno hyfforddiant Byrddau Iach ar gyfer aelodau BGC Sir Benfro ar brynhawn 5^{ed} Rhagfyr yn Archifdy Sir Benfro. Byddai rhagor o fanylion yn dilyn yn fuan.

LR

Nododd NE hefyd y byddai trefniadau ynghylch craffu ar y BGC yn datblygu'n dilyn trafodaethau diweddar yn y Pwyllgor Craffu a Throsolygu Partneriaethau ac y byddai partneriaid statudol y BGC yn cael eu gwahodd, o fis Ionawr 2019 ymlaen, i gyfarfodydd y Pwyllgor i graffu ar eu cyfraniadau at waith y BGC.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm.